

Ofcom Consultation

Radio: the Implications of *Digital Britain* for Localness Regulation

The Welsh Language Board's Recommendations

- 1.1 The latest *Radio Joint Audience Research* (RAJAR) statistics show that the size of the audience for Welsh medium radio is increasing.¹ Research conducted by the Welsh language Board shows that the public would like to receive a wider variety of Welsh language content.² Commercial radio broadcasting has a key role to play in Wales in increasing the variety of Welsh medium broadcasting that is available to the public. It also has an obvious role in providing more opportunities to use and learn the Welsh language, increase the language's status, and moving closer to the Welsh Assembly Government's objective of creating a truly bilingual Wales.

The Welsh Language Board appreciates the opportunity to reply to this important consultation. Ofcom's consultation on the implications of the *Digital Britain* report for Localness Regulation is welcomed, and we would like to offer the advice below consistent with Section 3 of the 1993 Welsh Language Act.

1993 Welsh Language Act

Part 1

Section 3. -

- (2) ...the Board shall...
- (a) advise the Secretary of State on matters concerning the Welsh language;
- (b) advise persons exercising functions of a public nature on the ways in which effect may be given to the principle that, in the conduct of public business and the administration of justice in Wales, the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality;
- (c) advise those and other persons providing services to the public on the use of the Welsh language in their dealings with the public in Wales.

Here are our recommendations:

¹ RAJAR, June 2009.

² *Living Lives Through the Medium of Welsh* (2005); page 14

- Welsh language provision should be included as one of the criteria considered when awarding commercial radio licenses that service Wales.
- a condition to offer provision in Welsh should be included in relevant licences for local and national commercial radio licenses in Wales.
- the public in Wales should be consulted to ensure that their aspirations for Welsh language content are reflected within any changes to the localness regulations.
- the Welsh Assembly Government's Media Policy Unit should be consulted to ensure that any changes to the localness regulations are consistent with the objective of increasing Welsh language use contained within *Iaith Pawb*.

Welsh Language Board

- 1.2 The Welsh Language Board (the Board) is a statutory body established under the Welsh Language Act 1993 to promote and facilitate the use of the Welsh language. The Act established the principle that, in the conduct of public business in Wales, the Welsh and English languages should be treated equally. The Board has statutory responsibilities and powers to ensure that public bodies prepare Welsh Language Schemes which detail how the above principle will be realised in practice.

Ofcom's Welsh Language Scheme

- 1.3 Ofcom was named by the Welsh Assembly Government under Section 6/1(o) of the Act in August 2008 as an organisation which:

*appears... to be fulfilling functions of a public nature.*³

Ofcom's Welsh language scheme states:

*Our policies, initiatives and services will be consistent with this scheme. They will support the use of Welsh and will, whenever possible, help the public in Wales use Welsh as part of their day to day lives.*⁴

³ Welsh Language Act (1993); Section 6/1(o); page 3.

⁴ *Ofcom Welsh Language Scheme*(2006); Section 3.1; page 3.

Consistent with this commitment, it is expected that Ofcom gives the needs of Welsh speakers appropriate consideration as it presents any changes to radio provision that result from this consultation.

laith Pawb – the Welsh Assembly Government’s Action Plan for the Welsh language

1.4 *laith Pawb*, the Welsh Assembly Government’s action plan for the Welsh language, was published in 2003. The aim of this action plan is to create a truly bilingual Wales. The plan notes the Government’s objective to

*... bring about an increase in the use and visibility of the Welsh language in all aspects of everyday life, including work, leisure and social activities.*⁵

Furthermore, some targets are also given in *laith Pawb* to increase the use of Welsh. These include:

By 2011 –

- *more services, by public, private and voluntary organisations are able to be delivered through the medium of Welsh.*⁶

laith Pawb envisages a central role for broadcasting, including radio, as the future of the Welsh language is planned. It is noted that

broadcasting plays an important role in reinforcing many aspects of the Government’s wider language policy and underlines the status of the language.⁷

laith Pawb describes the Welsh Assembly’s Government’s priorities and aspirations for the broadcasting sector in Wales. We ask that Ofcom gives attention to the commitments made in *laith Pawb* and to ensure that any changes to commercial radio provision in Wales are consistent with *laith Pawb*’s objective of increasing the use of Welsh.

⁵ *laith Pawb* (2003); page 11.

⁶ *Ibid*; page 11.

⁷ *Ibid*; page 50.

We recommend that Ofcom consults with the Welsh Assembly Government's Media Policy Unit to ensure that any changes to the localness regulations are consistent with this action plan's objectives.

Licensing Commercial Radio in Wales

- 1.5 A number of commercial radio stations that service Wales offer Welsh language provision. These include Radio *Carmarthenshire*, Radio *Ceredigion* and *Champion FM*. The consultation document includes the recommendation that commercial radio stations should have the opportunity to make an application to Ofcom to combine with other radio stations to service a wider area. We are confident that Ofcom will ensure consistency with the commitment to mainstream the Welsh language made in its Welsh language scheme, by ensuring that the present Welsh language provision is not adversely affected by this process. This can be achieved by including Welsh language provision as one of the criteria to be considered when awarding any broadcasting licenses in Wales.

Licenses for a National Service for Wales

- 1.6 The consultation document also suggests that commercial radio stations holding a regional license should have the opportunity to make an application to Ofcom to expand so they may offer a quasi national service. In the case of Wales, the document refers to Real Radio as it has received licenses for South Wales and North and Mid Wales. We understand that these licenses do not contain a condition to offer Welsh language broadcasting hours. We recommend that Ofcom takes steps to rectify this situation by including the need to offer Welsh language provision as one of the criteria for awarding a national license for Wales.

Consulting With the Public in Wales

- 1.7 The consultation's purpose is to ensure that the public's aspirations are reflected in any changes to the present localness regulations. Ofcom sets performance conditions for recipients of commercial radio licenses. These include expectations for local content. In Wales a number of these licenses also establish a responsibility to offer Welsh language provision. In 2005, the Board commissioned a study to collect information about the public's experiences as they conducted their lives through the medium of Welsh. The study states that the public are discontented with

the lack of choice available in terms of Welsh Language TV, radio

*and books and magazines.*⁸

and that they called for

*more choice in all these media.*⁹

Some license agreements in Wales contain a commitment to offer provision in Welsh and this has led to an increased choice of Welsh language content in the media. The result of the study above suggests that the public's wish is increase this content further.

The Board would like Ofcom to consider consulting with Welsh speaking communities and members of the public about commercial radio provision. The purpose of this would be to ensure that Welsh speakers aspirations are given appropriate consideration within any changes to commercial radio provision in Wales. Such a consultation would ensure that Ofcom *'help(s) the public in Wales use Welsh as part of their day to day lives'*, consistent with the commitment made in its Welsh language scheme.

Conclusion

- 1.9 The Board asks that Ofcom ensures that the need for commercial radio to include Welsh language content is given appropriate consideration as any changes to process of licensing commercial radio stations are decided. We are confident that our recommendations will assist you in achieving this.

We would like to once again thank you for the opportunity to contribute to this consultation. You are welcome to contact me if you require further explanation of the comments above.

Yours sincerely

Ianto Brychan
Central Government and Justice Unit

⁸ *Living Lives Through the Medium of Welsh* (2005); page 14.

⁹ *Ibid*; page 14

Ymgynghoriad Ofcom:

Goblygiadau *Prydain Ddigidol* ar Reoleiddio Lleolrwydd

Argymhellion Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd)

- 1.1 Dengys ystadegau diweddaraf *Radio Joint Audience Research* (RAJAR) bod maint cynulleidfa radio cyfrwng Cymraeg yn cynyddu¹⁰. Ar yr un pryd mae ymchwil Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn dangos yr hoffai aelodau'r cyhoedd dderbyn amrywiaeth mwy eang o gynnwys Cymraeg gan y cyfryngau.¹¹ Mae gan ddarlledu radio masnachol rôl allweddol i'w chwarae yng Nghymru wrth gynyddu'r dewis o gynnwys darlledu Cymraeg sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae iddo rôl amlwg hefyd wrth gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r Gymraeg, wrth gynyddu statws yr iaith ac wrth symud yn agosach at nòd Llywodraeth Cynulliad Cymru o greu Cymru gwir ddwyieithog.

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad pwysig hwn. Croesawir ymgynghoriad Ofcom ar oblygiadau'r adroddiad *Prydain Ddigidol* ar Reoleiddio Lleolrwydd a hoffem gynnig y cyngor isod yn unol ag Adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Rhan 1

- Adran 3. –
- (2) ...bydd y Bwrdd –
 - (a) yn cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar faterion ynglŷn â'r iaith Gymraeg;
 - (b) yn cynghori personau sy'n ymarfer swyddogaethau o natur gyhoeddus ar y ffyrdd o weithredu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal;
 - (c) yn cynghori'r rheiny a phersonau eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ynghylch defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu hymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru.

Dyma ein hargymhellion:

¹⁰ RAJAR Mehefin 2009

¹¹ *Astudiaeth ar Fyw Bywydau Trwy Gyfrwng y Gymraeg* (2005); tudalen 14.

- dylid cynnwys darpariaeth Cymraeg fel un o'r meini prawf i'w hystyried wrth ddyfarnu trwyddedau radio masnachol a fydd yn gwasanaethu Cymru.
- dylid cynnwys amod i ddarparu'n Gymraeg o fewn trwyddedau perthnasol ar gyfer gwasanaethau radio masnachol lleol a chenedlaethol yng Nghymru.
- dylid ymgynghori gyda'r cyhoedd yng Nghymru i sicrhau bod eu dyheadau hwy am gynnwys Cymraeg yn cael eu hadlewyrchu o fewn unrhyw newidiadau i'r rheoliadau lleol.
- dylid ymgynghori gydag Uned Polisi Cyfryngau Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r rheoliadau ar leolrwydd yn gyson a'r amcan o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a geir yn *Iaith Pawb*.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

- 1.2 Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) fel corff statudol trwy Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Y mae'r Ddeddf yn sefydlu'r egwyddor y dylid, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, drin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal. Y mae gan y Bwrdd swyddogaethau a phwerau statudol sydd yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn paratoi Cynlluniau Iaith, i roi manylion sut y byddant yn gweithredu'r egwyddor uchod yn ymarferol.

Cynllun Iaith Gymraeg Ofcom

- 1.3 Cafodd Ofcom hefyd ei enwi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dan Adran 6/1(o) y Ddeddf ym mis Awst 2008 fel corff

*y mae'n ymddangos... ei fod yn ymarfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.*¹²

Mae cynllun iaith Gymraeg Ofcom yn datgan:

¹² Ddeddf yr Iaith Gymraeg (1993); Adran 6/1(o); tudalen 3.

*Bydd ein polisïau, ein mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a byddant, bryd bynnag y bo'n bosibl, yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd.*¹³

Yn unol â'r ymrwymiad yma, disgwylir bod Ofcom yn rhoi ystyriaeth briodol i anghenion siaradwyr Cymraeg wrth gyflwyno unrhyw newidiadau a ddaw i ddarpariaeth radio masnachol yng Nghymru yn sgil yr ymgynghoriad hwn.

***Iaith Pawb* – Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg**

- 1.4 Yn 2003 cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg, *Iaith Pawb*. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn anelu at greu Cymru gwir ddwyieithog. Nodir yn y cynllun amcan y Llywodraeth o

*...ysgogi cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg a'i hamlygrwydd ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd, gan gynnwys gwaith, hamdden a gweithgareddau cymdeithasol.*¹⁴

Yn ogystal, sefydlir o fewn *Iaith Pawb* rhai targedau ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan gynnwys

Erbyn 2011 –

- *ei bod yn bosibl i gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ddarparu mwy o wasanaethau, trwy gyfrwng y Gymraeg.*¹⁵

Gwêl *Iaith Pawb* rôl ganolog i ddarlledu, gan gynnwys radio, o fewn cynllunio dyfodol yr iaith Gymraeg. Nodir bod

*....darlledu yn chwarae rhan bwysig mewn cadarnhau sawl agwedd o bolisi iaith ehangach y Llywodraeth ac yn tanlinellu statws yr iaith.*¹⁶

¹³ Cynllun Iaith Gymraeg OFCOM (2006); Adran 3.1; tudalen 3.

¹⁴ *Iaith Pawb* (2003); tudalen 11.

¹⁵ *Ibid*; tudalen 11.

¹⁶ *Ibid*; tudalen 50.

Mae *Iaith Pawb* yn disgrifio blaenoriaethau a dyheadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y maes darlledu yng Nghymru. Gofynnwn i Ofcom roi sylw i'r ymrwymïadau a roddir o fewn *Iaith Pawb* ac i sicrhau bod cysondeb ag amcan *Iaith Pawb* i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth gynllunio newidiadau i'r ddarpariaeth radio masnachol yng Nghymru.

Argymhellwn bod Ofcom yn ymgynghori gydag Uned Bolisi Cyfryngau Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r rheoliadau ar leolrwydd yn gyson ag amcan y cynllun gweithredu hwn.

Trwyddedu Radio Masnachol yng Nghymru

- 1.5 Mae nifer o'r gorsafoedd radio masnachol sydd yn gwasanaethu Cymru yn cynnig darpariaeth Cymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys *Radio Sir Gar*, *Radio Ceredigion* a *Champion FM*. Mae'r ddogfen ymgynghorol yn argymhell bod gorsafoedd radio masnachol yn cael cyfle i wneud cais i Ofcom i gyfuno â gorsafoedd eraill fel eu bod yn gwasanaethu ardal fwy eang. Hyderwn y bydd Ofcom yn sicrhau nad yw'r ddarpariaeth Cymraeg presennol yn cael ei effeithio'n andwyol gan y broses yma, yn unol â'r ymrwymiad a roddir o fewn ei gynllun iaith i brif ffrydio'r Gymraeg. Gellir gwneud hynny drwy gynnwys darpariaeth Cymraeg fel un maen prawf i'w ystyried wrth ddyfarnu unrhyw drwyddedau darlledu yng Nghymru.

Trwyddedau Gwasanaeth Cenedlaethol ar Gyfer Cymru

- 1.6 Mae'r ddogfen ymgynghorol hefyd yn cynnig bod gorsafoedd radio masnachol sydd yn meddu ar drwyddedau rhanbarthol yn cael y cyfle i wneud cais i Ofcom i ehangu fel eu bod yn cynnig gwasanaeth tra cenedlaethol. Yn achos Cymru, mae'r ddogfen yn cyfeirio at yr orsaf Real Radio, sydd wedi derbyn trwyddedau ar gyfer De Cymru, ac yn ddiweddar, Gogledd a Chanolbarth Cymru. Deallwn nad yw'r trwyddedau hyn yn cynnwys amod i gynnig oriau darlledu cyfrwng Cymraeg. Argymhellwn bod Ofcom yn cymryd camau i adfer y sefyllfa hon trwy gynnwys yr angen i gynnig darpariaeth Cymraeg fel un o'r meini prawf wrth ddyfarnu trwydded genedlaethol ar gyfer Cymru.

Ymgynghori Gyda'r Cyhoedd yng Nghymru

- 1.7 Diben yr ymgynghoriad yw sicrhau bod dyheadau'r cyhoedd yn cael eu hadlewyrchu mewn unrhyw newidiadau i'r rheoliadau lleolrwydd presennol. Mae Ofcom yn gosod amodau gwasanaeth i ddeiliaid trwyddedau radio masnachol. Mae'r rhain yn cynnwys disgwyliadau am gynnwys lleol. Yng Nghymru mae nifer o'r trwyddedau yma hefyd yn gosod cyfrifoldeb i gynnig darpariaeth yn y Gymraeg. Comisiynwyd astudiaeth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2005, i gasglu gwybodaeth am brofiad y cyhoedd wrth fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r astudiaeth yn datgan bod y cyhoedd yn anfodlon

*gyda'r dewis sydd ar gael yn nhermau teledu, radio, llyfrau a chylchgronau Cymraeg.*¹⁷

a'u bod yn galw am

*ragor o ddewis yn y cyfryngau hyn i gyd.*¹⁸

Mae rhai cytundebau trwyddedu yng Nghymru yn cynnwys amod i ddarparu'n Gymraeg ac mae hynny wedi arwain at ddewis mwy eang o gynnwys Cymraeg yn y cyfryngau. Mae canfyddiadau'r astudiaeth uchod yn awgrymu mai cynyddu'r dewis yma ymhellach yw dyhead y cyhoedd.

Hoffai'r Bwrdd i Ofcom roi ystyriaeth i ymgynghori gyda chymunedau ac aelodau o'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith am ddarpariaeth radio masnachol. Pwrpas hynny fyddai sicrhau ystyriaeth briodol i ddyheadau Cymru Cymraeg o fewn unrhyw newidiadau i ddarpariaeth radio masnachol yng Nghymru. Mi fyddai ymgynghori fel hyn yn galluogi Ofcom i sicrhau ei fod yn '(c)ynorthwyo'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd', fel y mae'n ymrwymo i wneud o fewn ei gynllun iaith.

¹⁷ Astudiaeth ar Fyw Bywydau Trwy Gyfrwng y Gymraeg (2005); tudalen 14.

¹⁸ Ibid; page 14.

Casgliad

- 1.9 Gofynna'r Bwrdd bod Ofcom yn sicrhau bod yr angen i radio masnachol gynnwys darpariaeth Cymraeg yn cael ystyriaeth briodol wrth benderfynu ar unrhyw newidiadau i'r broses o drwyddedu gorsafoedd radio masnachol. Hyderwn y bydd ein hargymhellion yn eich cynorthwyo wrth gyflawni hyn.

Hoffem ddiolch i chi eto am y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad. Mae croeso i chi gysylltu â mi am eglurhad pellach o'r sylwadau uchod.

Yn gywir

Ianto Brychan
Uned Llywodraeth Ganol a Chyfiawnder

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5/7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT
post@bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Welsh Language Board
Market Chambers
5/7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT
post@welsh-language-board.org.uk
www.welsh-language-board.org.uk

T +44 (0)29 2087 8000
Ff +44 (0)29 2087 8001
Cadeirydd_Chair Meri Huws
Prif Weithredwr_Chief Executive
Meirion Prys Jones
Swyddfeydd eraill_Other offices
Caernarfon, Caerfyrddin_Carmarthen

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

